**Gwasanaeth Democrataidd**
**Democratic Service**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod / Meeting

**FFORWM CYLLIDEB YSGOLION**

**SCHOOLS FINANCE FORUM**

Dyddiad ac Amser / Date and Time

**9.00 a.m. DYDD MAWRTH, 25 MEHEFIN 2013**

**9.00 a.m. TUESDAY, 25 JUNE 2013**

Lleoliad / Location

**Ystafell Gyfarfod / Assembly Room**

**Hen Eglwys Santes Fair / Old St Mary's Church**

**Heol yr Eglwys / Church Street**

**TREMADOG**

Pwynt Cyswllt / Contact Point

**GLYNDA O'BRIEN**

**01341 424 301**

Dosbarthwyd: 19.06.13

**AELODAETH / MEMBERSHIP**

**AELODAU CABINET / CABINET MEMBERS**

Y Cynghorydd/Cllr Sian Gwenllian (Addysg)
Y Cynghorydd/Cllr Peredur Jenkins (Adnoddau)

**<u>CYFARWYDDWYR CORFFORAETHOL / CORPORATE DIRECTORS</u>**

Mr Iwan Trefor Jones
Mr Dilwyn Williams

**PENAETHIAID UWCHRADD / SECONDARY HEAD TEACHERS**

Mr Alun Llwyd – Ysgol Dyffryn Ogwen
Mr Eifion Jones - Ysgol Brynrefail
Mr Emyr Hughes - Ysgol Dyffryn Nantlle
Mr Vaughan Williams - Ysgol Syr Hugh Owen

**PENAETHIAID CYNRADD / PRIMARY HEAD TEACHERS**

Mrs Iona Jones - Ysgol Edmwnd Prys/Bro Cynfal
Mrs Sian Elen Pleming - Ysgol Llanaelhaearn
Mrs Menna Wynn Pugh - Ysgol Penybryn
Mr Gwyn Howells - Ysgol y Gelli
Mr Dylan Roberts - Ysgol Cymerau
Mrs Esme Spencer - Ysgol Baladeulyn

**UNDEBAU ATHRAWON / TEACHERS' UNIONS**

Mr Neil Foden – Ysgol Friars

**LLYWODRAETHWYR / GOVERNORS**

**Arfon**

Mr Walter Williams – Ysgol Dyffryn Ogwen - Arennig, 14 Erw Las, Bethesda, Gwyedd
Mr Godfrey Northam - Ysgol Llanllechid – 4 Llwyn Bedw, Rachub, Llanllechid, Bangor, Gwynedd.

**Meirionnydd**

Mr Eifion Williams - Ysgol y Moelwyn – Tanrallt , Llan Ffestiniog , Blaenau Ffestiniog
Mr Gwynne Pierce - Ysgol Llanbedr – Bryn, Llanbedr, Gwynedd. LL45 2HW

**Dwyfor**

Mr Glyn Owen – Ysgol Uwchradd Botwnnog - Rhos Newydd, Mynytho, Pwllheli, LL53 7RW
Mr T. Elwyn Jones - Ysgol Bro Plenydd - Madryn , 30 Dolwar , Y Ffor

**ESGOBAETH / DIOCESE**

Parchedig/Rev Robert Townsend

**YSGOLION EGLWYS / CHURCH SCHOOLS**

Disgwyl enwebiad / Awaiting nomination

**YSGOLION ARBENNIG / SPECIAL SCHOOLS**

Mrs Donna Roberts - Ysgolion Hafod Lon a Pendalar

**Sylwebyddion / Observers :**

Mr Harry Thomas, Prif Weithredwr/Chief Executive
Mr Dewi R Jones, Pennaeth Addysg/Head of Education Service
Mr Owen Owens , Uwch Reolwr Addysg/Education Senior Manager
Mr Hefin Owen , Rheolwr Cyllid y Gyfadran Datblygu/Finance Manager Development Directorate
Mr Garem Jackson, Cadeirydd Ffederasiwn Penaethiaid Cynradd
Mrs Alwen Watkin, Cadeirydd Ffederasiwn Penaethiaid Uwchradd

## R H A G L E N

1. **Ethol Cadeirydd**

Ethol Cadeirydd i'r Fforwm ar gyfer 2013/14.

2. **Ethol Is-Gadeirydd**

Ethol Is-gadeirydd i'r Fforwm ar gyfer 2013/14.

3. **Ymddiheuriadau**

Ymddiheuriadau am fod yn absennol.

4. **Datgan Buddiant Personol**

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

5. **Cofnodion**

I gadarnhau cofnodion cyfarfod o'r Fforwm a gynhaliwyd ar 4 Chwefror 2013.

(Copi yn amgaeëdig – Papur Gwyn)

**6. Materion yn codi o'r cofnodion**

| | | | |
|---|---|---|---|
| (i) | eitem 3(a) | Adolygu Fformiwla Uwchradd | (DRJ) |
| (ii) | eitem 5 | Cyllido Ysgolion Arbennig | (DRJ) |
| (iii) | eitem 6 | Dosbarthu arbedion Trefniadaeth Ysgolion | (DRJ) |
| (iv) | eitem 7 | Adolygiad o'r Fformiwla Dyrannu Ysgolion Cynradd | (DRJ/OO) |

**7. Cyfrifon Terfynol 2012/2013**

Cyflwyno adroddiad Y Rheolwr Cyllid – papur **gwyrdd** (HO)

**8. Grant Effeithiolrwydd Ysgolion GEY,
Grant Amddifadedd Disgyblion GAD
Grant Y Gymraeg mewn Addysg a Grant Ysgolion Uwchradd Band 4/5**

Cyflwyno adroddiad gan Yr Uwch Reolwr Addysg – papur **Ielog** (DM)

**9. Cytundebau Lefel Gwasanaeth :**

- Cynnal a Chadw Ysgolion Uwchradd (OO)
- Tîm Gwybyddiaeth a Dysgu (DM)
- Integreiddio (88 ysgol) (DM)
- Clerc Llywodraethwyr (OO)

Cyflwyno adroddiad gan y Swyddogion Addysg – papur **melyn**

**10. Cynyddu Datganoli**

Cyflwyno adroddiad Y Rheolwr Cyllid – papur **llwyd** (HO)

**11. Dyddiadau cyfarfodydd y Fforwm Cyllid ar gyfer 2013/14**

13/11/2013 a 05/02/2014

**FFORWM CYLLIDEB YSGOLION**
**Cofnodion o gyfarfod a gynhaliwyd yn Yr Hen Eglwys Santes Fair, Tremadog, ar 4 Chwefror 2013 o 2.00 p.m. hyd 5.15 p.m.**

**Yn Bresennol:**

**Aelodau Cabinet:** Y Cynghorydd Siân Gwenllian (Addysg)
Y Cynghorydd Peredur Jenkins (Adnoddau)

**Cyfarwyddwyr Corfforaethol:** Mr Dilwyn Williams

**Penaethiaid Ysgolion :** Mr R Emyr Hughes (Ysgol Dyffryn Nantlle), Mr Alun Llwyd (Ysgol Dyffryn Ogwen), Mr Gwyn Howells (Ysgol y Gelli), Mrs Sianelen Pleming (Ysgol Llanaelhaearn), Mrs Iona Jones (Ysgol Bro Cynfal/Edmwnd Prys), Mrs Esme Spencer (Ysgol Baladeulyn), Mr Dylan Roberts (Ysgol Cymerau).

**Llywodraethwyr:** Mr Walter Williams (Sector Uwchradd)
Mr Godfrey Northam (Sector Cynradd)
Mr Gwynne Pierce (Sector Cynradd)

**Undebau Athrawon:** Mr Neil Foden

**Yr Esgobaeth:** Parchedig Robert Townsend

**Swyddogion:** Mr Dewi Jones (Pennaeth Addysg)
Mr Hefin Owen (Rheolwr Cyllid Datblygu)
Mr Owen Owens (Uwch Reolwr Addysg)
Mrs Glynda O'Brien (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu)

**Ymddiheuriadau:** Mr Harry Thomas (Prif Weithredwr), Mr Iwan Trefor Jones (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Mr Ieuan Roberts (Pennaeth Ysgol Pendalar), Mr Eifion Jones (Ysgol Brynrefail), Mr Vaughan Williams (Ysgol Syr Hugh Owen), Mrs Menna W. Pugh (Ysgol Penybryn, Tywyn), Mr Garem Jackson (Cadeirydd Ffederasiwn Penaethiaid Cynradd Gwynedd).

1. **CROESO**

Estynnodd y Cadeirydd groeso i Mrs Iona Wyn Jones, Pennaeth Ysgolion Bro Cynfal / Edmwnd Prys, i'w chyfarfod cyntaf o'r Fforwm fel olynydd i Mrs Gwenan Williams a oedd wedi ymddeol o'i swydd ddiwedd y flwyddyn fel Pennaeth yr ysgolion uchod. Gofynnwyd i'r Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu anfon gair o ddiolch i Mrs Williams am ei chyfraniad a'i chefnogaeth i'r Fforwm a dymuno'r gorau iddi yn ei hymddeoliad.

## 2. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r Fforwm Cyllideb Ysgolion a gynhaliwyd ar 26 Tachwedd 2012 fel rhai cywir.

## 3. MATERION YN CODI O'R COFNODION

### (a) Eitem 6 (a) – Adolygu Fformiwla Uwchradd

Adroddodd y Rheolwr Cyllid Datblygu bod y Grŵp Adolygu Fformiwla Uwchradd wedi cytuno cyfarfod yn ôl yr angen gan gyfeirio materion i'r Grŵp drwy'r broses Cynllunio Strategol Uwchradd.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

## 4. CYLLIDEB YSGOLION 2013/14

Cyflwynwyd, er gwybodaeth, adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol (DW) yn amlinellu crynodeb o waith ymchwil a wnaethpwyd gan Uned Ymchwil y Cyngor o'r sefyllfa gymharol o ran gwariant ar ysgolion er mwyn bwydo'r broses gyllidol.

Nodwyd bod dwy ffactor yn gallu effeithio ar wariant y pen addysg sef :

(a) Dwysedd poblogaeth (ysgolion mewn ardal wledig yn costio mwy oherwydd fod angen mwy ohonynt)
(b) Amddifadedd (angen gwario mwy ar blant llai breintiedig os am gael yr un canlyniad)

O safbwynt dwysedd poblogaeth yn y sector cynradd, nodwyd bod Gwynedd yn y 3ydd safle yng Nghymru ac yn y 18fed safle o ran amddifadedd ac felly disgwylir i wariant y pen fod rhwng y 3ydd a'r 18fed safle yng Nghymru.

O ran y sector gynradd gan fod Gwynedd yn y trydydd safle, o gofio'r hinsawdd ariannol nid oedd yn ymddangos fod yna ddadl dros ychwanegu at y buddsoddiad ar hyn o bryd.

Tra'n cydnabod nad oedd y gymhariaeth yn y sector uwchradd cystal (gan mai yn yr wythfed safle yr oeddem) , nodwyd yr angen i gadw golwg ar y sefyllfa o ystyried rhagolygon gostyngiad demograffig sylweddol o 2014/15 ymlaen. Ychwanegir swm o arian ar gyfer cynhwysiad i'r gyllideb ar gyfer 2013/14 ond eto fe fyddai'n ofynnol cadw golwg ar y sefyllfa ar gyfer ystadegau y flwyddyn nesaf a dod i gasgliadau pellach bryd hynny ynglŷn â'r buddsoddiad cymharol.

Yng nghyd-destun yr ysgolion arbennig, nodwyd bod gwahaniaethau sylweddol yn natur a graddfa'r ddarpariaeth a'r ffordd y cofnodir gwariant gan awdurdodau ac felly yn ei wneud yn anoddach i ddod i gasgliad pendant.

Tynnwyd sylw at ddata diweddar sy'n dangos gwahaniaeth o £605 y disgybl rhwng gwariant Cymru a Lloegr ar addysg gan nodi'r casgliad nad o reidrwydd ym maes ysgolion yr oedd y gwahaniaeth . Fodd bynnag, ni fydd modd gwneud cymariaethau i'r dyfodol oherwydd newidiadau yn Lloegr i sefydlu academïau y tu allan i reolaeth awdurdodau lleol.

**Penderfynwyd:** **Derbyn, nodi a diolch am yr adroddiad.**

## 5. CYLLIDO YSGOLION ARBENNIG

Cyflwynwyd adroddiad a gomisiynwyd gan Mr John Roberts ar gyllido ysgolion arbennig sef Ysgol Pendalar ac Ysgol Hafod Lon.

(a) Esboniodd y Pennaeth Addysg mai pwrpas cyflwyno'r adroddiad ydoedd er mwyn i'r Aelod Cabinet Addysg dderbyn barn y Fforwm ar gynnwys yr adroddiad cyn cyflwyno adroddiad terfynol i'r Cabinet ynglyn â dyraniad ariannol ychwanegol i'r ddwy ysgol dan sylw.

Noda awdur yr adroddiad bod peryglon i gymharu gwariant Ysgolion Arbennig oherwydd nad oedd yn bosibl cadarnhau bod y gymhariaeth mewn gwirionedd yn cymharu tebyg wrth debyg am wahanol resymau megis trefniadau anfon disgyblion yn all-sirol, polisïau integreiddio disgyblion mewn ysgolion prif lif, ysgolion arbennig preswyl gan rhai awdurdodau.

Penderfynodd yr awdur ganolbwyntio ar "Gylchlythyr 58/90 gyhoeddwyd yn 1990 gan y Swyddfa Gymreig bryd hynny "**cynnig canllawiau i Awdurdodau lleol ac ysgolion, yn ogystal â chynnig model staffio darluniadol …."** h.y.. cynnig sail ar gyfer adnabod y nifer staff sydd eu hangen i bob disgybl yn seiliedig ar anawsterau dysgu'r disgybl.

Pwysleisia Cylchlythyr 58/90 "**mae'n dilyn mai mater cymhleth iawn yw asesu anghenion staffio. Ni ddylid cymryd yr ymagwedd a amlinellir yn y cylchlythyr hwn yn gynllun parod, ond yn hytrach fel canllaw bras at ddibenion cynllunio. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn disgwyl i awdurdodau lleol ac ysgolion barhau i lunio eu barn eu hunain ynghylch anghenion a hynny yng ngoleuni amgylchiadau a blaenoriaethau lleol …."**

Ychwanegodd y Pennaeth Addysg nad oedd unrhyw ganllaw arall wedi ei gyhoeddi ers yr arweiniad uchod a'r hyn sydd yn ddyfodiad newydd o safbwynt staffio ers 1990 yw:

- Gofynion Cynllunio, Paratoi ac Asesu (CPA)
- Amser rheoli Pennaeth

I gloi, cyfeiriodd y Pennaeth Addysg at awgrymiadau awdur yr adroddiad sef bod lle i Gyngor Gwynedd ystyried cynyddu ei fuddsoddiad ariannol i'r Ysgolion Arbennig yn bennaf i gynyddu ychydig ar lefelau staffio'r ysgolion gan gyfrifo effaith model staffio darluniadol fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| • Cost ychwanegol mabwysiadu model i Ysgol Pendalar | £64,985 |
| • Cost ychwanegol mabwysiadu model i Ysgol Hafod Lon | £66,191 |
| Cyfanswm | £131,176 |

(b) Yn ystod y drafodaeth ddilynol ymatebwyd i ymholiadau fel a ganlyn:

(i) cadarnhaodd y Rheolwr Cyllid Datblygu bod llefydd yn y ddwy ysgol yn cael eu hadolygu'n flynyddol

(ii) yng nghyswllt yr unedau arbennig a leolir yn Ysgol Cymerau a Bontnewydd, nodwyd mai mater rhwng yr Ysgolion Arbennig a'r ysgolion lleol ydoedd trafod y dull ariannu.
(iii) Siom nad oedd cynrychiolydd o'r Ysgolion Arbennig yn bresennol yn y Fforwm fel bo modd derbyn adborth yr ysgolion
(iv) Hyderir y gellir symud ymlaen gyda dyhead y Cyngor i ddiwygio'r ddarpariaeth bresennol yn Ysgol Hafod Lon a chreu canolfan rhagoriaeth Addysg Anghenion Arbennig yn ganolog yn y Sir er mwyn rhesymoli'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion sydd wedi'u lleoli allan o'r Sir ar hyn o bryd.

(c) Adroddodd yr Aelod Cabinet ei bod wedi derbyn ymddiheuriad gan Benaethiaid yr Ysgolion Arbennig am eu habsenoldeb ond gwneir cais ganddynt i dderbyn adborth o'r hyn a benderfynir gan y Fforwm.

Mewn ymateb, cadarnhaodd y Pennaeth Addysg y byddai'r swyddogion yn rhoi adborth i'r Penaethiaid fel bo modd iddynt adrodd yn ôl i'r Llywodraethwyr.

**Penderfynwyd: (a) Derbyn a nodi cynnwys yr adroddiad annibynnol.**

**(b) Gofyn i'r Aelod Cabinet gyfleu i'r Cabinet gymeradwyaeth unfrydol y Fforwm i argymhellion awdur yr adroddiad sef i fuddsoddi :**

**(i) £64,985 yn ychwanegol i Ysgol Pendalar; a**
**(ii) £66,191 yn ychwanegol i Ysgol Hafod Lon.**

**6. <u>YMGYNGHORI AR SAIL DOSBARTHU ARBEDION TREFNIADAETH YSGOLION</u>**

Cyflwynwyd llythyr ymgynghori a anfonwyd i Benaethiaid a Chadeiryddion Llywodraethwyr Ysgolion Cynradd y Sir yn seiliedig ar benderfyniadau'r Cyngor i gau ysgolion yn nalgylchoedd Tywyn a'r Berwyn a'r posibilrwydd o ryddhau £200,000 o'r arbedion sy'n weithredol o 1 Medi 2013 i'r 98 Ysgol Gynradd fydd yng Ngwynedd bryd hynny.

Ymgynghorwyd ar y ddau opsiwn canlynol:

**Opsiwn 1**

**A Dosbarthu £98,000 trwy ddileu'r llinell "Cynllun Cefnogi Dosbarthiadau Mawr CA2" fydd yn dosbarthu £1,000 i bob ysgol er mwyn dileu'r cyfraniad (Ni fydd hyn yn lleihau'r gyllideb cefnogi dosbarthiadau mawr)**
**B Dosbarthu £102,000 ar sail nifer disgyblion (trwy'r pennawd gwasanaethau a chyflenwadau)**

**Opsiwn 2**

**A Dosbarthu £98,000 trwy ddileu'r llinell "Cynllun Cefnogi Dosbarthiadau Mawr CA2" fydd yn dosbarthu £1,000 i bob ysgol er mwyn dileu'r cyfraniad (Ni fydd hyn yn lleihau'r gyllideb cefnogi dosbarthiadau mawr)**
**B Dosbarthu £102,000 ar sail nifer disgyblion a deilynga ginio am ddim (trwy'r pennawd Anghenion Dysgu Ychwanegol ac Amddifadedd)**

Derbyniwyd ymateb gan 33 ysgol allan o 102 gyda 14 o blaid Opsiwn 1, 18 o blaid Opsiwn 2 ac 1 yn gwrthwynebu.

Nododd Pennaeth Bro Cynfal/Edmwnd Prys ei bod wedi dychwelyd y ffurflen yn datgan cefnogaeth i Opsiwn 1 ond nad oedd hynny wedi ei nodi ar y rhestr grynodol a gyflwynwyd i'r Aelodau yn ystod y cyfarfod.

Datganodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol bod yr ymateb o'r ysgolion yn siomedig a'i fod o'r farn y dylid targedu'r plant nad oedd yn cael 'run cyfle â phlant o gefndiroedd mwy breintiedig. Roedd yn gefnogol i Opsiwn 2 a'r un pryd yn awgrymu comisiynu ymchwil ar faint o arian y dylid ei gyfeirio er mwyn sicrhau swm dyledus i'r trwch o blant sydd ei angen o ystyried hefyd y bydd Grant Amddifadedd yn debygol o ddirwyn i ben yn y dyfodol.

Pwysleisiodd yr Aelod Cabinet ei bod yn awyddus i weld mwy o adnoddau yn cael eu cyfeirio at ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig er mwyn cau'r bwlch sy'n bodoli o ran cyrhaeddiad ym mherfformiad disgyblion. Drwy ddyrannu arian ychwanegol tuag at hyn byddai modd gweld pa gynlluniau fyddai'n cau'r bwlch. Hefyd, efallai y dylid defnyddio term mwy cyffredinol megis "plant mewn angen" oherwydd yn aml nid yw'r plant a ddynodir yn "blant sy'n derbyn cinio am ddim" o reidrwydd yn blant sydd angen cefnogaeth ychwanegol.

Mynegwyd pryderon gan rai Aelodau i weithredu Opsiwn 2 ar sail:

(a) nad oedd data dangosyddion cinio am ddim yn ddibynadwy
(b) bod rhai ysgolion gyda balansau sylweddol ac oni fyddai modd eithrio'r ysgolion hynny rhag derbyn dyraniad ychwanegol a chyfarwyddo Penaethiaid i gyflwyno adroddiad ar ddefnydd o'r arian ychwanegol.

Mewn ymateb, esboniodd y Rheolwr Cyllid Datblygu ei bod yn ofynnol gweithredu arian datganoledig yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol ac na fyddai'n bosibl rhoi amod ar ddefnydd o'r arian ychwanegol na chyfeirio at falansau.

Yn dilyn pleidlais:

**Penderfynwyd: Cymeradwyo Opsiwn 2 ar gyfer dosbarthu'r £200,000 o'r arbedion ym maes ad-drefnu ysgolion yn nalgylchoedd Tywyn a'r Berwyn sy'n weithredol o 1 Medi 2013 i'r 98 ysgol gynradd fydd yng Ngwynedd ar y pryd fel a ganlyn:**

**(i) Dosbarthu £98,000 trwy ddileu'r llinell "Cynllun Cefnogi Dosbarthiadau Mawr CA2" fydd yn dosbarthu £1,000 i bob ysgol er mwyn dileu'r cyfraniad (Ni fydd hyn yn lleihau'r gyllideb cefnogi dosbarthiadau mawr CA2)**
**(ii) Dosbarthu £102,000 ar sail nifer disgyblion a deilynga ginio am ddim (trwy'r pennawd Anghenion Dysgu Ychwanegol ac Amddifadedd)**

## 7. ADOLYGIAD O'R FFORMIWLA DYRANNU YSGOLION CYNRADD

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Addysg yn deillio o ymgynghoriad ar adolygiad o'r fformiwla dyrannu ysgolion cynradd ac i dderbyn barn ysgolion ar yr egwyddorion a sefydlwyd gan y Grŵp Adolygu Fformiwla Cynradd ar gyfer creu fformiwla dyrannu ddiwygiedig.

Adroddodd y Pennaeth Addysg y derbyniwyd ymateb gan 40 ysgol unigol a chyfeiriwyd at y crynodeb a oedd ynghlwm i'r adroddiad fel Atodiad 1. Gofynnwyd i'r Fforwm ystyried yr ymatebion cyn cyrraedd at farn i'w gyflwyno i'r Aelod Cabinet Addysg.

Ychwanegodd yr Aelod Cabinet Addysg bod Gweithgor o Benaethiaid wedi trafod y fformiwla gyda Mr John Roberts, arbenigwr allanol, ac wedi dod i gonsensws barn bod yr egwyddor i newid y fformiwla dyrannu cynradd yn cael ei dderbyn. Yn anffodus, golyga'r newid yn y fformiwla bod rhai ysgolion yn colli arian tra bo rhai eraill ar eu hennill. Tra'n derbyn y byddai rhai ysgolion yn colli arian, fe fyddai'r arian a ddosbarthir yn sgil arbedion o ganlyniad i ad-drefnu ysgolion cynradd yn lliniaru rhywfaint o'r golled.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol amlygwyd y pwyntiau isod gan Benaethiaid unigol:

(a) siom mai dim ond 40 ysgol sydd wedi ymateb i'r ymgynghoriad
(b) tra'n cefnogi'r egwyddor o adolygu'r fformiwla, cafwyd enghraifft o un ysgol yn gweld gostyngiad cyllidol o bron i £20,000 a oedd yn ormod o leihad i'w wynebu mewn un flwyddyn ariannol. Pe byddir yn symud at weithredu'r fformiwla arfaethedig, dylid ystyried ei diwygio dros gyfnod o ddwy flynedd er mwyn lliniaru unrhyw effaith dros gyfnod hwy.
(c) Dylid cynnwys penawdau Cymorthyddion a Lwfansau Athrawon ar wahân
(d) Tra'n derbyn bod y fformiwla arfaethedig yn decach i ysgolion mawr serch hynny nid oes digon o arian yn y pot a bod angen cynyddu gwariant ar addysg
(e) Nid oedd amser goruchwyliaeth yn ddigonol ar gyfer cyllido awr y dydd trwy'r flwyddyn
(f) Diffyg pennawd ar gyfer gofynion y Cyfnod Sylfaen

Parthed y sylw ynglyn a dim digon o arian yn y pot – nododd y Cyfarwyddwr Corfforaethol nad dyna oedd y dystiolaeth y cyfeiriwyd ato yn yr eitem flaenorol yn ei awgrymu ac mai mater o'r defnydd a wneir o'r adnodd sydd ar gael ydi'r broblem.

**Penderfynwyd: (a) Derbyn a nodi cynnwys yr adroddiad.**

**(b) Cyflwyno i'r Aelod Cabinet:**

**(i) cymeradwyaeth y Fforwm Cyllideb Ysgolion i'r egwyddor o'r adolygiad fformiwla dyrannu ysgolion cynradd gan gymryd i ystyriaeth y sylwadau amlinellir uchod**
**(ii) cefnogaeth i symud ymlaen i'w weithredu dros gyfnod o ddwy flynedd.**

## 8. <u>BALANSAU YSGOLION</u>

Cyflwynwyd llythyr anfonwyd i Benaethiaid a Chadeiryddion Llywodraethwyr holl ysgolion Gwynedd ynglyn â defnydd o falansau.

Atgoffwyd yr Aelodau o'r ddeddfwriaeth lle mae gan yr Awdurdod hawl i gyfarwyddo'r corff llywodraethol ynghylch sut i wario'r gweddill ym mantolen yr ysgol ar gyfer cyfnod cyllido, os:

(i) yn achos ysgol gynradd bod y gweddill yn £50,000 neu'n uwch, ac

(ii) yn achos ysgol uwchradd neu ysgol arbennig bod y gweddill yn £100,000 neu'n uwch;

a bod y Fforwm wedi penderfynu ychwanegu'r cymal isod:

(a) yn achos ysgol gynradd, lle bo'r gweddill yn fwy nag 8% o gyfran cyllideb yr ysgol neu £50,000 neu fwy, prun bynnag yw'r mwyaf . . . "

(b) yn achos ysgol uwchradd, lle bo'r gweddill yn fwy na 8% o gyfran cyllideb yr ysgol neu £100,000 neu fwy, prun bynnag yw'r mwyaf"

Cyfeiriodd y Pennaeth Addysg at y drafodaeth a'r sylwadau wnaed yng nghyfarfod diwethaf y Fforwm ac yn deillio o'r cofnod bu iddo ymgynghori ynglŷn â dymuniad y Fforwm i ystyried diddymu'r trothwy 8%.

Cyflwynwyd i'r Fforwm yn ystod y cyfarfod daflen yn nodi rhai ymatebion a dderbyniwyd gan ysgolion (14 cynradd a 4 uwchradd) ac fe nodwyd o'r rhai a ymatebodd bod 8 ysgol yn fodlon i ddiddymu'r 8% a 7 ysgol yn dymuno cadw'r cymal 8%.

Tywysodd y Rheolwr Cyllid Datblygu'r Aelodau drwy'r rhestr o falansau'r holl ysgolion gan dynnu sylw at amcangyfrif bras a gwblhawyd gan yr Uned Gyllid Datblygu ar gyfer 31.03.13.

Nododd Pennaeth ei fod yn gefnogol i gadw'r cymal 8% neu £50,000 (yn achos ysgol gynradd) a £100,000 (yn achos ysgol uwchradd ac arbennig) prun bynnag yw'r lleiaf.

Amlygodd sawl Pennaeth bryder ynglyn â'r ysgolion hynny sy'n cario balansau sylweddol ac yn rhan o gynllun gwarchodaeth gan yr Awdurdod oherwydd niferoedd isel y disgyblion. Teimlwyd nad oedd modd i ysgolion bach fedru buddsoddi mewn staff a'i fod yn sialens i'r Penaethiaid fedru gwario gweddill y balansau. Gwelir bod yr un ysgolion yn cario balansau flwyddyn ar ôl blwyddyn. Ychwanegwyd oni ddylai'r mater gael ystyriaeth fel rhan o'r broses hunan arfarnu Penaethiaid.

Awgrymwyd a fyddai modd i swyddogion wirio'r polisi gwarchodaeth fel bo modd rhoi ystyriaeth ddwys i ddiddymu'r elfen gwarchodaeth i'r ysgolion hynny sydd â balansau sylweddol a'u bod felly yn hunan gyllido drwy ddefnyddio balansau.

**Penderfynwyd: Gofyn i swyddogion ystyried a oes modd newid y polisi gwarchodaeth er mwyn peidio a'i weithredu mewn sefyllfaoedd lle mae gan ysgol falansau sylweddol.**

## 9. <u>CYTUNDEB LEFEL GWASANAETH EIDDO</u>

Cyflwynwyd (i) Cytundeb Lefel Gwasanaeth Cynnal a Chadw Adeiladau ar gyfer Ysgolion Cynradd

(ii) I'r Aelodau yn ystod y cyfarfod, Cytundeb Lefel Gwasanaeth Cynnal a Chadw Adeiladau ar gyfer Ysgolion Uwchradd Ebrill 2013 – Mawrth 2016

### (A) Cytundeb Lefel Gwasanaeth Cynnal a Chadw Adeiladau Ysgolion Cynradd

Tywysodd yr Uwch Reolwr Addysg yr Aelodau drwy'r adroddiad ynghylch Cytundeb Lefel Gwasanaeth y sector cynradd gan nodi bod pwyntiau 3, 4 a 5 yn cyfarch anfodlonrwydd ysgolion gyda'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth blaenorol. Roedd o'r farn bod y Cytundeb yn fwy syml gyda thabl un tudalen wedi cymryd lle rhestr hirfaith. Cyfeiriwyd at y newid o ran cyfrifoldebau sef bod y Cyngor bellach yn cymryd cyfrifoldeb dros gyllido gwaredu asbestos o loriau pan fo ysgolion yn dymuno gosod lloriau newydd.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol amlygwyd y pwyntiau canlynol:

(a) synnwyd bod ysgolion yn gyfrifol am ffensys, waliau a giatiau a phryderwyd pe na byddai gan ysgolion ddim arian ar gyfer eu hatgyweirio beth fyddai'n digwydd o safbwynt iechyd a diogelwch y disgyblion.

Mewn ymateb, esboniodd yr Uwch Reolwr Addysg petai yn fater brys ac argyfyngus byddai'n rhaid cytuno ar delerau. Fodd bynnag dylid eu cynnal a'u cadw i gyflwr derbyniol yn y lle cyntaf fel nad ydynt yn dirywio mewn cyflwr.

(b) gofynnwyd be' fyddai'n digwydd mewn sefyllfaoedd o lifogydd yn dinistrio ffensys / waliau a dŵr yn mynd drwy'r ysgol.

Eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol y byddai yswiriant yn cyfarch sefyllfaoedd tebyg i'r uchod.

**Penderfynwyd: Derbyn y Cytundeb Lefel Gwasanaeth Cynnal a Chadw Adeiladau ar gyfer Ysgolion Cynradd Ebrill 2013 – Mawrth 2016.**

**(B) Cytundeb Lefel Gwasanaeth Cynnal a Chadw Adeiladau Ysgolion Uwchradd**

Tywysodd yr Uwch Reolwr Addysg yr Aelodau drwy'r Cytundeb gan dynnu sylw at y rhestr ynghlwm i'r Cytundeb fel Atodiad B a nodi mai'r ysgolion sydd yn gyfrifol am unrhyw fater nad yw wedi ei nodi ar y rhestr honno.

Mynegodd Pennaeth ei anfodlonrwydd i dderbyn y Cytundeb oherwydd nad oedd wedi cael amser i roi sylw teilwng i'w gynnwys gan mai newydd ei dderbyn ydoedd ac awgrymwyd y dylid gohirio ystyried y ddogfen tan y cyfarfod nesaf ym mis Mehefin. Roedd Is-grŵp o Benaethiaid wedi trafod egwyddorion y cytundeb ond byddai'n rhaid cael trafodaeth bellach ar faterion megis gwaith uwchben y trothwy ariannol a phwy sy'n gyfrifol am y gost. A fyddai'n golygu bod Penaethiaid yn gorfod anfon am dri phris gan gontractwyr sy'n golygu byrdwn gweinyddol biwrocrataidd?

Gofynnodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol pam bod angen dogfen o gwbl ac oni fyddai trefn o ddatganoli'r arian ac ymddiried yn yr Awdurdod i ymdrin â chyfrifoldebau cynnal a chadw yn fwy effeithiol. Roedd o'r farn bod y gyfundrefn uchod yn wastraff ar amser Penaethiaid a staff drwy orfod trafod pwy sy'n gyfrifol am wahanol agweddau o'r gwaith cynnal a chadw.

**Penderfynwyd: Gohirio cymryd penferfyniad ynglyn â'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth Cynnal a Chadw Adeiladau Ysgolion Uwchradd a'i gyflwyno ymhellach i gyfarfod nesaf y Fforwm ar 25 Mehefin 2013 er mwyn i Benaethiaid fedru rhoi sylw teilwng i'w gynnwys.**

**10. <u>CYTUNDEB LEFEL GWASANAETH GEGYR (Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol Gogledd Cymru)</u>**

Cyfeiriodd y Pennaeth Addysg at y Cytundeb Lefel Gwasanaeth uchod sydd yn gytundeb i'r 6 awdurdod (Gwynedd, Ynys Môn, Conwy, Dinbych, Fflint a Wrecsam) a bod trafodaeth yn mynd rhagddi a hynny'n seiliedig ar ddeall beth mae'r gwasanaeth gwella ysgolion yn ei gynnig. Fodd bynnag roedd trafodaeth wedi bod ychydig yn rhwystredig oherwydd diffyg penodiad Prif Swyddog i'r GEGYR.

Nodwyd bod y Cytundeb Lefel Gwasanaeth rhwng yr Awdurdod a GEGYR yn seiliedig ar achos busnes llawn a gyflwynwyd i Gabinet y 6 awdurdod.

Esboniwyd strwythur y GEGYR sef tîm o 30 Arweinyddion Sustem dan ofal y Prif Swyddog a 3 Uwch Arweinydd Sustem, un yn gyfrifol am Môn/Gwynedd, un ar gyfer Dinbych/Conwy ac un i Fflint/Wrecsam. O dan bob 3 Uwch Arweinydd Sustem ceir 3 Is-Dîm a fydd yn cyflawni'r prif ddyletswyddau ac fe ddyrannir 6 diwrnod i ysgolion fydd yn cynnwys 3 ymweliad gydag ymweliadau a chymorth ychwanegol yn ôl yr angen.

Cynigwyd y 4 pwynt isod i'w hystyried fel ffordd ymlaen ar sail y sefyllfa uchod:

1. Gweithredu'n hollol dryloyw hefo ysgolion gan gynnig yr un cytundeb lefel gwasanaeth a drafodir gyda'r GEGYR i'r ysgolion.
2. Bod yr Awdurdod a'r ysgolion yn derbyn mai'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth yma fydd yn weithredol ar gyfer 2013/14 a gofynnir am gyfraniad o gyllidebau ysgolion ar yr un sail ac egwyddor â Chytundeb eleni a'r gorffennol gyda Chwmni CYNNAL.
3. Ffurfio Is-grŵp o Benaethiaid Cynradd, Uwchradd ac Arbennig i fanylu ar natur y Cytundeb Lefel Gwasanaeth yn ystod 2013/14.
4. Byddir yn anfon gwybodaeth at Benaethiaid o'r holl drefniadau gweinyddol ategol yr arferai CYNNAL drefnu i ysgolion. Fe fyddai'n rhaid i'r Awdurdod gyflenwi'r elfennau hyn drwy grantiau.

Amlygwyd nerfusrwydd ymysg Penaethiaid ynglyn â sefydlu'r uchod gan nodi pryder ynglyn â threfniadau hawl a haeddiant, trafodaethau ar y pynciau sylfaen, datblygiad proffesiynol parhaus, a gwahaniaethau yn yr awdurdodau ar draws y Gogledd.

Mewn ymateb i liniaru pryderon y Penaethiaid, sicrhaodd y Pennaeth Addysg:

(a) Y byddai'r Is-grwp o Benaethiaid a benodir yn manylu ar y Cytundeb Lefel Gwasanaeth ac yn gallu adnabod yr elfennau priodol i'w prynu / neu ddim ar gyfer llunio Cytundeb Lefel Gwasanaeth 2014/15.
(b) Lle bynnag y bydd angen yn cael ei adnabod mewn ysgolion yn naturiol fe fyddai'n rhaid targedu mwy
(c) Byddai Hyfforddiant Mewn Swydd yn parhau i fodoli ac fe fyddai'r cyfleoedd ar gael ond ddim i raddfa Hawl a Haeddiant
(ch) Y byddir yn cadw at yr un patrwm ac ar sail yr un cyllid ag a weithredwyd y llynedd

**Penderfynwyd: Cymeradwyo i'r Pennaeth Addysg symud ymlaen fel yr amlinellir yn 1 – 4 uchod.**

## 10. GRANT EFFEITHIOLRWYDD YSGOLION A'R GRANT AMDDIFADEDD DISGYBLION

Adroddodd y Pennaeth Addysg bod twf yn y Grant Effeithiolrwydd Ysgolion ar lefel genedlaethol o £32.5m i £37.5m gyda thwf yn y dyraniad gros i Wynedd o £1.4m i £1.6m a olygai gynnydd o £200,000. Rhagwelir twf pellach yn y grant ar gyfer 2014/15. Gwneir cais am y grant ar sail ranbarthol fel rhan o gais y 6 awdurdod.

Fe fyddir yn targedu'r Grant Amddifadedd Disgyblion yn uniongyrchol.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r wybodaeth uchod.**

## 11. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Adroddwyd y cynhelir y cyfarfod nesaf fore Mawrth, 25 Mehefin 2013 am 9.00 hyd 12.00 o'r gloch yn Hen Eglwys y Santes Fair, Tremadog.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

**CADEIRYDD**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | FFORWM CYLLIDEB YSGOLION |
| **DYDDIAD** | 25 Mehefin 2013 |
| **TEITL** | Cyfrifon Terfynol Ysgolion 2012/13 |
| **PWRPAS** | Cyflwyno'r cyfrifon a sylwadau ar y balansau a'r drefn fonitro |
| **ARGYMHELLIAD** | Derbyn yr adroddiad a chymeradwyo'r gweithredu pellach yn ôl y galw |
| **AWDUR** | Dewi R Jones, Pennaeth Addysg |
| **AELOD CABINET DROS ADDYSG** | Y Cynghorydd Sian Gwenllian |

Atodir pecyn sydd wedi'i anfon i ysgolion (llythyr ac atodiadau 1-5) yn nodi balans neu ddiffyg pob ysgol yng Ngwynedd ar 31/03/2013.

Mae balansau ysgolion Gwynedd wedi lleihau o £624,303 yn ystod 2012/13 i £3,813,317.

Mae gan 12 ysgol ddiffyg ar ddiwedd 2012/13 gydag amrediad sirol rhwng £564 a £181,017

Amlinellir y drefn ac amserlen ble mae ysgolion yn adrodd yn ôl i'r Pennaeth Addysg, yn unol â'r Cynllun Ariannu, os yw balansau dros 5% . Mewn sefyllfaoedd ble mae balansau cynradd dros £50,000 a hefyd dros 8% ac yn y sector uwchradd ac arbennig bod balansau dros £100,000 a hefyd dros 8%, nodir grym gweithredu y Pennaeth Addysg i gyfarwyddo Corff Llywodraethu sut i wario elfen o'u balansau. Goblygiadau peidio â gweithredu yn unol â'r cyfarwyddid fyddai talu arian yn ôl i'r Gwasanaeth Addysg.

Yng nghyfarfod y Fforwm ar 04/02/2013 adroddwyd ar amcangyfrif balansau ysgolion erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Rhwng gosod cyllideb 2012/13 a diwedd y flwyddyn ariannol, mae balansau ysgolion yn uwch o £1,398,796 na'r amcangyfrif gwreiddiol. Bwriedir targedu rhai ysgolion i adnabod a deall y rhesymau dros y cynnydd mewn balansau yn ystod y flwyddyn gyllidol ac adrodd ar y canfyddiadau i cyfarfod y Fforwm yn ystod tymor yr Hydref.

# Pennaeth Addysg
# Head of Education
Dewi R Jones

Gofynnwch am/Ask for:
Mr Hefin Owen ☎(01286) 679061 hefinowen@gwynedd.gov.uk
Mrs Kathy Bell ☎(01286) 679449 kathybell@gwynedd.gov.uk
Mr Gwyn Owen ☎(01286) 679561 gwynowen@gwynedd.gov.uk
Ffacs (01286) 677347
**Ein Cyf / Our Ref: cyfterf2012/13 KB**

20 Mehefin 2013

# Penaethiaid Ysgolion

Annwyl Bennaeth

## A) CYFRIFON YSGOLION

**Cyfrifon Terfynol Blwyddyn Gyllidol 2012/13**

Mae cyfrifon terfynol 2012/13 wedi'u cwblhau ac rydych eisoes wedi derbyn datganiad yn dangos cyfanswm yr adnoddau sydd ar gael a gwir wariant net (yn cynnwys llôg) am y flwyddyn. I ysgolion cynradd mae'r datganiad yn dangos cyllideb a gwir wariant ar bob pennawd yn y gyllideb. Mae'r ysgolion uwchradd ac arbennig yn darparu adroddiadau eu hunain o system FMS.

**Gorwariant ar ddiwedd 2012/13**

Mae'n statudol i ysgolion gyda diffyg ar ddiwedd y flwyddyn ariannol ddarparu manylion i'r Awdurdod o'u strategaeth gyllidol er mwyn sicrhau clirio'r diffyg yma. Gwerthfawrogwn dderbyn llythyr yn crynhoi'r sefyllfa **erbyn 5 Gorffennaf 2013** os gwelwch yn dda. Mae 9 ysgol gynradd, 2 ysgol uwchradd ac 1 ysgol arbennig yn gorwario ar ddiwedd 2012/13.

## B) BALANSAU YSGOLION 31/03/2013

Fel y gwyddoch, mae balansau ysgolion wedi bod yn destun trafodaeth gyson a chynyddol dros y blynyddoedd diwethaf gan benaethiaid, Llywodraethwyr, Cynghorwyr ayb. Gan ysgolion Gwynedd yr oedd y canran uchaf o falansau yng Nghymru ar ddiwedd 2011/12 sef *5.9% (gweler fy llythyr dyddiedig 24 Ionawr 2013 – **Atodiad 1**).

Derbyniwyd ymholiad gan y Gweinidog Addysg ar 12 Chwefror 2013 – gweler **Atodiad 2** sydd hefyd yn cynnwys ymateb yr Aelod Cabinet dros Addysg.

Dyma grynodeb o falansau ysgolion ar 31/03/2013 -

| | canran | 31/03/2012 | cynnydd/lleihad | **31/03/2013** | canran |
|---|---|---|---|---|---|
| Cynradd | 7.53% | £2,309,098 | + £34,767 | **£2,343,865** | 6.68% |
| Uwchradd | 6.06% | £2,059,415 | - £586,048 | **£1,473,367** | 4.31% |
| Arbennig | 2.57% | £69,107 | - £73,022 | **- £3,915** | -0.20% |
| Cyfanswm | *6.59% | £4,437,620 | - £624,303 | **£3,813,317** | 5.35% |

*( * sail gwahanol gan y Cynulliad i gyfrifo balansau ysgolion )*

Gwelir lleihad sylweddol ym malansau y sector uwchradd ac arbennig, ond cynnydd yn y sector gynradd.

Swyddfa'r Cyngor
Caernarfon
Gwynedd LL55 1SH
01766 771000
www.gwynedd.gov.uk

Atodaf daenlen yn manylu ar sefyllfa pob ysgol unigol er gwybodaeth (**Atodiad 3**).

Byddwch yn ymwybodol bod y ddeddfwriaeth Rheoliadau Cyllido Ysgolion (Cymru) 2010 sydd yn weithredol ers 1 Ebrill 2011, sy'n rhoi grym i Awdurdod pan fo gwarged ar ôl gosod cyllideb dros y trothwy o £50,000 yn y sector cynradd neu £100,000 yn y sectorau uwchradd ac arbennig.

Hefyd, fe benderfynodd Bwrdd y Cyngor weithredu uwchben y trothwy £50,000/£100,000 a defnyddio'r ganran 8% o'r dyraniad – neu pa bynnag un sydd fwyaf. Bydd y Fforwm Cyllideb Ysgolion yn adolygu hyn yn eu cyfarfod ar 25/06/2013.

Dyma fydd y drefn weithredu ynglŷn â balansau ysgolion Gwynedd eleni -

1. **Balansau dros 5% (Cynllun Ariannu Ysgolion)**
   Yn unol â Chynllun Ariannu Ysgolion (cymal 4.2) mae gofyn statudol i ysgolion sydd â balansau dros 5% o'u dyraniad adrodd i'r Awdurdod ar y defnydd mae'r ysgol yn bwriadu ei wneud o'r balansau (disgwylir bod y Corff Llywodraethol wedi cytuno ar ymateb yr ysgol i'r holiadur).

   Mae gan 65 ysgol gynradd ac 8 ysgol uwchradd falansau o dros 5% ar ddiwedd 2012/13.

   Atodaf holiadur (**Atodiad 4**) i chwi ymateb i'r ymholiad – os yn berthnasol.

   **Amserlen – holiadur i'w ddychwelyd i'r Uned Gyllid Ddatblygu erbyn 5 Gorffennaf 2013 os gwelwch yn dda**

2. **Cyllideb 2013/14**
   Swyddogion yr Adran Addysg a'r Adran Cyllid i adolygu cyllidebau ysgolion 2013/14 (sydd i fod wedi'u sefydlu gan y Corff Llywodraethol llawn erbyn 31 Mai 2013) er mwyn adnabod yr elfen balansau sydd heb ei hymrwymo yn y gyllideb a chyfrifo'r elfen sydd dros y trothwy.

   **Amserlen – erbyn diwedd y tymor**

3. **Cyfarwyddo Corff Llywodraethu**
   Yn dilyn adolygiad manwl o faterion 1 a 2, os yn briodol, byddaf yn cyfarwyddo'r Corff Llywodraethu sydd â balansau uwchben y trothwy sut i wario elfen o'u balansau a gofyn am gadarnhad y byddant yn gweithredu yn unol â'r cyfarwyddyd.

   Byddaf hefyd, yn cysylltu gydag ysgolion sydd â balansau dros 5%, ond o dan y trothwy, os ydi'r holiadur ar ddefnydd o falansau yn aneglur ac/neu fod y rhesymau a gynigir yn annerbyniol neu'n amwys.

   **Amserlen – gweithredu ym mis Medi 2013**

4. **Talu gwarged i'r Awdurdod**
   Adolygu cyllideb ddiwygiedig yr ysgolion erbyn mis Tachwedd 2013 ac os na fydd y Corff Llywodraethol yn gweithredu yn unol â'r cyfarwyddyd, byddaf yn eu hysbysu o'r swm ariannol priodol y byddaf yn ei drosglwyddo o gyllideb yr ysgol i'r gyllideb ysgolion yn ystod y flwyddyn gyllidol 2013/14.

   **Amserlen - gweithredu yn y cyfnod Rhagfyr 2013 i Fawrth 2014.**

## C) <u>MONITRO CYFRIFON YSGOLION</u>

**Cynnydd yn y balansau wedi gosod cyllideb 2012/13**
Cyflwynwyd adroddiad i'r Fforwm Cyllideb Ysgolion 04/02/2013 yn amlygu defnydd o falansau wrth sefydlu cyllideb 2012/13, sef tafluniad cychwynnol o falansau 31 Mawrth 2013, yn ogystal ag adolygiad o'r gyllideb yn ystod y flwyddyn. Erbyn hyn mae'r gwir sefyllfa yn wybyddus i ni (**Atodiad 5**), gyda chrynodeb isod –

| | balansau 31/03/2012 | defnydd wrth osod cyllideb 2012/13 | AMCAN 1 balansau 31/03/2013 | AMCAN 2 balansau 31/03/2013 | GWIR balansau 31/03/2013 |
|---|---|---|---|---|---|
| cynradd | £2,309,098 | £969,851 | £1,339,247 | £2,252,000 | £2,343,865 |
| uwchradd | £2,059,415 | £984,064 | £1,075,351 | £1,257,490 | £1,473,367 |
| arbennig | £69,107 | £0 | -£77 | -£45,000 | -£3,915 |
| cyfanswm | £4,437,620 | £1,953,915 | £2,414,521 | £3,464,490 | £3,813,317 |

- **AMCAN 1** - Wrth sefydlu cyllideb 2012/13 mae'r ysgolion yn datgan eu bod yn ymrwymo £1,953,915 o falansau wrth sefydlu'r gyllideb, sy'n arwain at amcan cychwynnol bod balansau yn lleihau i **£2,414,521** ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

- **AMCAN 2** - Mae adolygiad yn ystod y flwyddyn yn rhoi amcan diwygiedig y byddai balansau yn £3,464,490 sydd **£1,049,969 yn fwy** nag ar adeg sefydlu'r gyllideb.

- **GWIR** - Mae'r gwir sefyllfa yn dangos balansau o £3,813,317 sef **£1,398,796 mwy** na'r amcangyfrif (AMCAN 1) .

Bwriedir targedu rhai ysgolion i adnabod a deall y rhesymau dros y cynnydd mewn balansau heb ei gynllunio yn ystod y flwyddyn. Targedir ysgolion uwchradd gyda

chynnydd o dros £75k ac ysgolion cynradd gyda chynnydd o dros £40k.  Bydd Swyddogion Addysg a staff yr Uned Gyllid Datblygu yn cynnal ymchwil gyda'r ysgolion canlynol dros yr Haf –

| ysgolion uwchradd | ysgolion cynradd |
|---|---|
| Eifionydd | Tregarth |
| Botwnnog | Llandygai |
| Glan Y Môr | Penybryn, Tywyn |
| Tryfan | Maesincla |

ac yn adrodd i'r Fforwm ar eu canfyddiadau yn nghyfarfod 13 Tachwedd 2013.

Hoffwn eich atgoffa am y pryder cyffredinol sy'n parhau nad yw rhai ysgolion bob amser yn gwneud y defnydd gorau o'r cyllid sydd ar gael ar gyfer y plant sydd yn y gyfundrefn ar hyn o bryd, mater sydd eisoes wedi ei amlygu gan yr Aelod Cabinet dros Addysg.

Bydd adroddiad ar gyfrifon terfynol a balansau ysgolion yn cael ei gyflwyno i'r Fforwm Cyllideb Ysgolion ar 25/06/2013.

Yn gywir,

*Dewi R Jones*

**Dewi R Jones**
Pennaeth Addysg

# Pennaeth Addysg
# Head of Education

**Atodiad 1**

Dewi R. Jones

Gofynnwch am/Ask for: **Dewi R Jones**
☎ (01286) 679467 Ein Cyf / Our Ref: **DRJ/AAS**
(01286) 677347 Eich Cyf / Your Ref:
dewirjones@gwynedd.gov.uk

24 Ionawr 2013

**At benaethiaid a chadeiryddion llywodraethwyr holl ysgolion Gwynedd**

Annwyl Bennaeth/Cadeirydd Y Llywodraethwyr

***Par: Balansau Ysgolion***

Nid am y tro cyntaf, cafodd y mater o falansau cymharol uchel Ysgolion Gwynedd sylw manwl yng nghyfarfod diwethaf Y Fforwm Cyllideb Ysgolion a gynhaliwyd 26 Tachwedd 2012.

Neges glir aelodau'r Fforwm, a'u dymuniad, yw y dylsai'r adnoddau ariannol gael eu gwario er budd y disgyblion sydd yn yr ysgolion heddiw yn hytrach na chreu a chario balansau ymlaen er ei fwyn ei hun. Dealla pawb yr angen i gynllunio'n ofalus at y dyfodol, ac ni ddibrisir hynny, ond ymddengys nad ydym yn cael y defnydd gorau o'r arian sydd yn y gyfundrefn Addysg ar hyn o bryd.

Fe noda'r Aelod Cabinet dros Addysg bod y lefel uchel o falansau yn ei gwneud hi'n anodd ymgyrchu i ysgolion dderbyn cyllid ychwanegol neu dderbyn toriadau llai na gweddill gwasanaethau'r Cyngor.

Ymhellach, gofynnwyd i mi ryddhau nifer o ddogfennau sy'n gysylltiedig â'r mater hwn:

1. Datganiad diweddar Llywodraeth Cymru ar falansau ysgolion ble nodir bod gan Ysgolion Gwynedd y balansau uchaf yng Nghymru -
   ***"Gwynedd, gydag 5.9%, oedd â'r lefel uchaf o gronfeydd wrth gefn fel canran o'r gwariant sy'n cael ei ddirprwyo i ysgolion"***
   http://wales.gov.uk/topics/statistics/headlines/localgov2012/121024/?skip=1&lang=cy

2. Rhestr o falansau Ysgolion ar sail nifer disgyblion **(Atodiad A)**

3. Balansau ysgolion ar sail nifer disgyblion a deilynga ginio am ddim **(Atodiad B)**

4. Cyllideb ddiwygiedig 2012/13 sy'n cymharu sefyllfa'r ysgolion gyda'r amcangyfrif gwreiddiol ar y defnydd o falansau wrth sefydlu cyllideb 2012/13 **(Atodiad C)**

5. Holiadur Balansau Ysgolion 2011/2012 yn crynhoi sefyllfa pob ysgol oedd gyda mwy na 5% o falansau ar 31 Mawrth 2012

Mae cyfle a chroeso i unrhyw ysgol ddarparu sylwadau i mi ar y daflen ymateb a byddaf yn cyflwyno sylwadau pellach i gyfarfod nesaf y Fforwm Cyllideb Ysgolion ar 4 Chwefror 2013. **(Atodiad Ch)**

Efallai y byddwch yn cofio i ni ymgynghori ar addasiad i'r ddeddfwriaeth lle mae gan yr Awdurdod yr hawl i ymyrryd gyda balansau ysgolion. Y cefndir yw bod y Fforwm Cyllideb Ysgolion yn eu cyfarfod ar 5 Gorffennaf 2011 wedi cytuno i ychwanegu'r cymal 8% i'r ddeddfwriaeth. Mae'r Fforwm nawr yn awyddus i ystyried diddymu'r cymal hwn a bydd hyn yn cael ei drafod yng nghyfarfod nesaf y Fforwm ar 4 Chwefror 2013. Yn y cyfamser mae cyfle i chi fynegi barn ar y mater hwn ac amgaeaf daflen ymateb i'r diben hwn yn ogystal. **(Atodiad D)**

Yn gywir

*Dewi R Jones*

**Dewi R Jones**
**Pennaeth Addysg**

**Copi:** Tîm Rheoli'r Adran Addysg

**ATODIAD 2**

**Leighton Andrews AC / AM**
**Y Gweinidog Addysg a Sgiliau**
**Minister for Education and Skills**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

Aelodau Cabinet Addysg yng
Nghymru

12 Chwefror 2013

Annwyl Aelodau Cabinet Addysg

Hoffwn dynnu eich sylw at y sefyllfa bresennol mewn perthynas ag arian dros ben ysgolion yng Nghymru.

Mae'r symiau arian sydd dros ben wedi amrywio dros y blynyddoedd diweddar, ond maent wedi parhau'n uchel yn gyson.

Mae Bwletin Ystadegol 177/2012 (a ryddhawyd ar 24 Hydref 2012 gan Gyfarwyddiaeth Ystadegol Llywodraeth Cymru) yn dangos bod gan ysgolion yng Nghymru £67 miliwn, neu £149 fesul disgybl, wrth gefn ar 31 Mawrth 2012. Er bod hyn yn ostyngiad o 9% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol (pan oedd y lefelau'n £74 miliwn), rwy'n pryderu bod i ffigur yn dal yn rhy uchel.

Cyflwynodd Rheoliadau Ariannu Ysgolion (Cymru) 2010 ddarpariaethau a oedd yn caniatáu i awdurdodau lleol gymryd camau pan fyddai arian dros ben yr ysgolion yn cyrraedd lefel benodol. Pan fydd yr arian sydd dros ben gan ysgolion cynradd yn fwy na £50,000 neu £100,000 ar gyfer ysgolion uwchradd ac ysgolion arbennig, gall yr awdurdodau lleol gyfarwyddo'r ysgolion i wario'r arian hwnnw. Os nad yw'r corff llywodraethu yn cydymffurfio â chyfarwyddyd o'r fath, gall yr awdurdod adennill yr arian i gyd neu rywfaint ohono a'i roi yn ei gyllideb ysgolion er mwyn ei ddefnyddio fel y gwêl yn dda.

Bydd, wrth gwrs, amgylchiadau penodol lle mae gan yr ysgol resymau da dros gadw symiau mawr wrth gefn. Er enghraifft, pan fo gwariant wedi'i neilltuo at ddiben penodol ac y bydd yn cael ei wario o fewn amserlen benodedig. Cyn belled â bod gan yr ysgol gynllun cadarn i gefnogi hyn, dylai fod hawl ganddynt ddefnyddio'r arian dros ben at y diben hwnnw. Fodd bynnag, os nad oes gan ysgolion gynlluniau sy'n gwrthsefyll eu craffu, dylai'r awdurdodau gymryd camau i leihau'r arian sydd gan yr ysgolion hyn dros ben. Nid yw cadw symiau mawr wrth gefn yn ffordd dda o reoli cyllidebau.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Leighton.Andrews@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*

*Printed on 100% recycled paper*

Rwy'n ymwybodol bod rhai awdurdodau lleol yn cymryd camau priodol ac yn gweithio gyda'u hysgolion i leihau'r arian sydd dros ben. Fodd bynnag, nid yw pob awdurdod yn gwneud hyn ac mae angen mynd i'r afael â hynny. Dylai pob awdurdod fynd ati i ddatrys y broblem, a dylai'r awdurdodau lleol mwyaf rhagweithiol rannu eu harferion da er lles pob ardal yng Nghymru..

Mae rhai awdurdodau lleol wedi awgrymu y dylid naill ai addasu'r terfynau ariannol yn narpariaethau Rheoliadau Ariannu Ysgolion (Cymru) 2010 ar gyfer mynd i'r afael â chyllidebau gwarged ysgolion, neu gynnwys canran yn ogystal â therfynau ariannol. Rydym yn ystyried diwygio'r rheoliadau er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth yn addas at y diben ar gyfer pob ysgol. Yn y cyfamser, dylai'r awdurdodau fynd ati i weithredu yn unol â'r darpariaethau fel ag y maent ar hyn o bryd.

Rwy'n eich annog i drafod y mater hwn gyda'ch Cyfarwyddwyr Addysg a sicrhau eich bod yn glir ynghylch yr hyn y maent yn ei wneud i leihau'r arian dros ben sydd gan yr ysgolion yn eu hardal. Yn dilyn y trafodaethau hyn, dylech fod yn glir pa gynlluniau sydd gan eich awdurdod yn eu lle ac erbyn pryd y maent yn disgwyl gweld gwelliannau.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ddarparu adborth o'r trafodaethau hyn i Steve Vincent, Dirprwy Gyfarwyddwr yr Is-adran Rheolaeth ac Effeithiolrwydd Ysgolion, erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

Er gwybodaeth i chi, os nad yw'r sefyllfa'n gwella neu os nad wyf yn argyhoeddedig eich bod yn cymryd y camau angenrheidiol, byddaf yn gofyn am gyngor ynghylch a oes modd i mi ddefnyddio pwerau ymyrryd Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo'r awdurdodau i gymryd camau priodol i leihau arian dros ben yr ysgolion.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Arweinwyr y Cynghorau yng Nghymru.

Leighton Andrews.

**Leighton Andrews AC / AM**
Y Gweinidog Addysg a Sgiliau
Minister for Education and Skills

**Dirprwy Arweinydd y Cyngor • Deputy Council Leader**
**Aelod Cabinet dros Addysg a Phlant a Phobl Ifanc •**
**Cabinet Member for Education and Children & Young People**
Cynghorydd / Councillor Sian Gwenllian

Gofynnwch am/Ask for: **Cyng. Sian Gwenllian**
☎ **(01286) 679162**
Cynghorydd.SianGwenllian@gwynedd.gov.uk

Ein Cyf / Our Ref: **SG/ls**
Eich Cyf / Your Ref:

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

8 Ebrill 2013

Steve Vincent
Drirprwy Gyfarwyddwr
Is-adran Rheolaeth ac Effeithiolrwydd Ysgolion
Llywodraeth Cymru
Bae Caerdydd
CAERDYDD
CF99 1NA

Annwyl Steve Vincent

***Par: Arian dros ben ysgolion yng Nghymru***

Dymunaf gydnabod derbyn llythyr 12 Chwefror 2013 Y Gweinidog Addysg ar y mater a nodir uchod yn ogystal â chyflwyno'r sylwadau canlynol ar ei gais.

Derbyniaf sylwadau'r Gweinidog Addysg a Sgiliau bod cyfanswm balansau rhai ysgolion Cymru ar 31 Mawrth 2012 yn rhy uchel gyda'r angen i Awdurdodau Lleol weithio gyda'u hysgolion er mwyn mynd i'r afael â'r mater.

Rwyf hefyd yn llawn sylweddoli mai gan Ysgolion Gwynedd oedd y ganran uchaf o falansau ysgolion ar gyfartaledd yng Nghymru a nodaf fod y mater yma yn derbyn sylw manwl y Fforwm Cyllideb Ysgolion a fy mod eisoes wedi cyfleu fy anfodlonrwydd am y sefyllfa hon i'r Fforwm.

Mae cyfundrefn weithredu eglur wedi'i sefydlu yma yn ddiweddar ble mae'r Adran Addysg yn targedu ysgolion gyda balansau rhydd sydd uwchben trothwy penodol ac yn adolygu/herio cynlluniau sy'n cyfeirio at ddefnydd o'r balansau hyn gan ystyried hefyd a oes angen cyfarwyddo ysgolion ymhellach sut i wario - amgaeaf er gwybodaeth gopi o lythyr y Pennaeth Addysg i'n hysgolion sy'n amlygu'r camau gweithredu ar hyn o bryd yma yng Ngwynedd.

Yr wyf hefyd wedi rhagrybuddio'r Fforwm Cyllideb Ysgolion **os nad oes digon o symud ar y mater byddaf yn adolygu a thynhau'r camau gweithredu.**

Cefnogaf hefyd y bwriad i adolygu'r rheoliadau ariannu.

Yn gywir,

Sian Gwenllian

**Cyng. Sian Gwenllian**
**Dirprwy Arweinydd y Cyngor ac**
**Aelod Cabinet dros Addysg a Phlant a Phobl Ifanc**

**Copi:** Dyfed Edwards, Arweinydd Cyngor Gwynedd
Dilwyn Williams, Cyfarwyddwr Corfforaethol
Hefin Owen, Rheolwr Cyllid
Dewi R Jones, Pennaeth Addysg
Owen Owens, Uwch Reolwr Addysg

Swyddfa'r Cyngor
Caernarfon
Gwynedd LL55 1SH
01766 771000
www.gwynedd.gov.uk

## Balansau Ysgolion 31 Mawrth 2013 / School Balances 31 March 2013

**patrwm balansau dros 4 mlynedd / pattern of balances over 4 years**

| | | Rhif Ysgol School No | Enw Ysgol / School Name | Dyraniad Terfynol / Final Allocation 2013/14 | Balansau / Balances 31/03/2013 | Balansau fel % o'r Dyraniad / Balances as a % of Allocation | Balansau / Balances 31/03/2010 | Balansau / Balances 31/03/2011 | Balansau / Balances 31/03/2012 | Balansau / Balances 31/03/2013 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 1 | 2000 | Gwaun Gynfi | 547,274 | **40,986** | 7.49% | 5,147 | 32,412 | 46,115 | **40,986** |
| | 2 | 2004 | Nefyn | 432,064 | **40,787** | 9.44% | 69,618 | 64,356 | 54,500 | **40,787** |
| | 3 | 2006 | Llanrug | 719,641 | **-7,324** | -1.02% | -5,384 | -11,050 | -7,949 | **-7,324** |
| | 4 | 2008 | Abererch | 239,375 | **13,384** | 5.59% | 7,390 | 6,143 | 6,448 | **13,384** |
| * | 5 | 2009 | Abersoch | 154,736 | **20,741** | 13.40% | -2,333 | 10,264 | 5,720 | **20,741** |
| * | 6 | 2010 | Beddgelert | 165,895 | **17,317** | 10.44% | 11,764 | 20,602 | 22,741 | **17,317** |
| | 7 | 2011 | Bethel | 461,917 | **-14,380** | -3.11% | 41,934 | 23,010 | 11,978 | **-14,380** |
| | 8 | 2013 | Bodfeurig | 197,799 | **31,914** | 16.13% | 38,464 | 47,789 | 42,207 | **31,914** |
| | 9 | 2015 | Borthygest | 200,798 | **5,378** | 2.68% | 12,312 | 499 | 5,441 | **5,378** |
| * | 10 | 2016 | Bronyfoel | 203,463 | **32,050** | 15.75% | 20,417 | 20,627 | 29,399 | **32,050** |
| | 11 | 2017 | Brynaerau | 229,328 | **10,825** | 4.72% | 15,530 | 22,251 | 11,902 | **10,825** |
| | 12 | 2024 | Carmel | 189,005 | **19,832** | 10.49% | 17,973 | 14,421 | 23,779 | **19,832** |
| | 13 | 2026 | Y Gelli | 622,164 | **39,515** | 6.35% | 84,849 | 87,373 | 59,679 | **39,515** |
| | 14 | 2028 | Penybryn | 422,183 | **31,023** | 7.35% | 67,900 | 60,374 | 23,148 | **31,023** |
| | 15 | 2033 | Treferthyr | 362,290 | **45,096** | 12.45% | 64,524 | 52,037 | 65,997 | **45,096** |
| | 16 | 2035 | Cwm Y Glo | 218,983 | **25,914** | 11.83% | 28,836 | 16,477 | 5,356 | **25,914** |
| | 17 | 2036 | Chwilog | 199,955 | **-1,188** | -0.59% | -4,345 | 1,733 | 507 | **-1,188** |
| | 18 | 2039 | Crud Y Werin | 206,067 | **11,277** | 5.47% | 12,363 | 6,767 | 9,369 | **11,277** |
| | 19 | 2042 | Dolbadarn | 547,586 | **35,205** | 6.43% | 36,030 | 27,105 | 41,940 | **35,205** |
| | 20 | 2046 | Edern | 259,128 | **5,053** | 1.95% | 15,263 | 15,565 | 13,597 | **5,053** |
| * | 21 | 2047 | Felinwnda | 156,676 | **10,451** | 6.67% | 20,139 | 19,468 | 15,347 | **10,451** |
| | 22 | 2048 | Bro Plennydd | 258,935 | **5,393** | 2.08% | 14,000 | 8,179 | 9,055 | **5,393** |
| | 23 | 2049 | Garndolbenmaen | 209,078 | **9,952** | 4.76% | 6,009 | 10,843 | 16,988 | **9,952** |
| | 24 | 2051 | Glanadda | 209,751 | **24,147** | 11.51% | 59,433 | 42,050 | 28,147 | **24,147** |
| | 25 | 2057 | Groeslon | 306,941 | **37,036** | 12.07% | 41,843 | 54,011 | 41,254 | **37,036** |
| * | 26 | 2059 | Llanaelhaearn | 174,819 | **-2,306** | -1.32% | 13,569 | 9,605 | 1,125 | **-2,306** |
| | 27 | 2060 | Llanbedrog | 222,800 | **6,955** | 3.12% | 10,803 | 13,513 | 16,295 | **6,955** |
| | 28 | 2066 | Llangybi | 286,637 | **13,977** | 4.88% | -1,841 | -2,167 | 11,330 | **13,977** |
| | 29 | 2069 | Llanllechid | 838,611 | **47,858** | 5.71% | 74,736 | 82,078 | 86,109 | **47,858** |
| | 30 | 2070 | Llanllyfni | 323,789 | **47,628** | 14.71% | 48,829 | 23,378 | 27,638 | **47,628** |
| * | 31 | 2071 | Llidiardau | 127,140 | **1,872** | 1.47% | 5,676 | 10,511 | 5,319 | **1,872** |
| | 32 | 2075 | Bab Morfa Nefyn | 161,008 | **21,036** | 13.07% | 42,861 | 29,751 | 33,557 | **21,036** |
| * | 33 | 2078 | Baladeulyn | 179,411 | **713** | 0.40% | 3,331 | 10,489 | 1,746 | **713** |
| * | 34 | 2081 | Nebo | 153,125 | **21,829** | 14.26% | 18,421 | 17,550 | 9,990 | **21,829** |
